# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 28
TACHWEDD 2009

Un o’r nofelau y bûm yn ei darllen yn ystod gwyliau’r haf oedd cyfrol afaelgar Geraint V. Jones, “Teulu Lòrd Bach”. Ar gychwyn y nofel cawn ein tywys i gyfnod y y Rhyfel Byd Cyntaf ac fe’n cyflwynir i fab hynaf y teulu, Rhys, sydd wedi dychwelyd adre’ o’r brwydro gwaedlyd. Er nad oedd Rhys wedi’i niwedio’n gorfforol y mae’n dioddef o’r cyflwr a adwaenwyd bryd hynny fel “shell shock”. Cymeriad dychmygol yw Rhys ond y mae’n cynrychioli miloedd o wŷr ifainc a ddychwelodd yn fyw o’r rhyfel ond a oedd yn dioddef o effeithiau seicolegol dwys nad oedd fawr neb yn eu deall ar y pryd.

Y mae’r ail Sul ym mis Tachwedd yn Sul y Cofio ac mewn seremonïau led-led y wlad fe fydd yr aberth a wnaed gan wŷr a gwragedd ifainc fel “Rhys” yn cael ei gofio pan osodir torchau o’r pabi coch gerbron y cofebau sydd yn britho ein pentrefi, trefi a’n dinasoedd. Bellach yr ydym yn cofio nid yn unig y rhai a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a’r Ail Ryfel Byd ond y rhai hynny hefyd a fu farw mewn rhyfeloedd diweddarach megis rhyfeloedd y Gwlff, Iraq ac Afghanistan. Fe ddaeth y pabi coch yn symbol Sul y Cofio am mai hwn oedd y blodyn a dyfodd yn gyntaf wedi’r brwydro gwaedlyd ar y meysydd yn Fflandrys, gwlad Belg, lle lladdwyd miloedd ar filoedd o wŷr ifainc yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ers hynny mae’r pabi coch wedi cael ei ddefnyddio gan elusen y Lleng Brydeinig Frenhinol i gofio am y gwŷr a’r gwragedd a roddodd eu bywydau dros eu gwlad. Mae’r elw o werthiant y pabi coch yn mynd tuag at gynorthwyo y milwyr hynny a ddioddefodd mewn rhyfeloedd, ynghyd a’u teuluoedd.

Y mae cofio aberth y milwyr yn bwysig, ond pwysig hefyd yw cofio’r gwersi a ddysgir inni gan ryfel a’r angen i greu byd o heddwch a thangnefedd, a “throi byd o boen a braw yn fyd o gariad pur”. Y mae heddwch a thangnefedd wrth gwrs yn dechrau yng nghalonnau pob yr un ohonom. Pa ddiben sydd mewn tristáu am sefyllfaoedd y Dwyrain Canol ac Afghanistan pan na fedrwn ni gymodi ac aelod o’r teulu neu gymydog? Pa ddiben sydd inni daranu am ffolineb arweinwyr y byd yn datblygu arfau niwclear pan na fedrwn ninnau orchfygu y casineb a’r eiddigedd sydd yn ffynnu ynom ni? A pha ddiben sydd i gofio am aberth oni bai ein bod ninnau yn barod i ymroi o’r newydd i rannu neges Crist am gymod, cyfiawnder a chariad?

Wrth inni ddiolch a chofio am bob “Rhys” a frwydrodd dros ei wlad, bydded i ninnau hefyd ymroi nid yn unig i ddiolch a chofio, ond i weithio yn gydwybodol ac yn ddi-flino tuag at feithrin calonnau a chymdeithas o heddwch a thangnefedd.

Heddwch ar ddaear lawr, gan ddechrau’n fy nghalon i,
Heddwch ar ddaear lawr, yr hedd a fwriadwyd i ni;
A Duw’n Dad trugarog, brodyr oll ŷm ni
Cerddwn oll gyda’n gilydd, mewn hedd a harmonî.

Seymour Miller a Jill Jackson
*cyf.* Harri Williams

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

## CALENDR MIS TACHWEDD 2009

| **Cyhoeddwr y Mis Eirian Reynolds** | **Organydd y Mis Ceris Gruffudd** | |
|---|---|---|
| 1 Tachwedd 2.30 | Oedfa Gymun Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue |
| 8 Tachwedd **10.00** | **Oedfa Deuluol Gweinidog Dalier Sylw! Fe fydd yr oedfa yn cychwyn hanner awr yn gynharach er mwyn i'r rhai fydd am fynychu'r Oedfa ar Sul y Cofio ger y Gofeb, gyrraedd mewn da bryd.** | |
| 15 Tachwedd 2.30 | Oedfa Bregeth: Gweinidog | Gofal y Te: I'w drefnu |
| 22 Tachwedd 10.30 | Clwb Sul Bach ac Oedfa Bregeth: Gweinidog | |
| 29 Tachwedd 10.30 | Oedfa Bregeth: Gweinidog | |
| Rhagfyr 6 2.30 | Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun: |

## I'CH DYDDIADUR

| | |
|---|---|
| **2 Tachwedd** | Cinio Cymorth Cristnogol : Neuadd Llanbadarn: 12.00-1.30yp |
| **5 Tachwedd** | Cyfarfod Hanner Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion, Noddfa Llambed. |
| **11 Tachwedd** | Cinio Cymunedol yn Neuadd yr Eglwys |
| **18 Tachwedd** | Cymdeithas Bethel : Atgofion gan y Cyfarwyddwr ffilm John Hefin MBE. cyn Bennaeth Drama BBC Cymru a'r gŵr a greodd "Pobol y Cwm" am 2.00yp. |
| **18 Tachwedd** | Cyfarfod Pwyllgor y Gymanfa Ganu |
| **18 Tachwedd** | Cymdeithas y Penrhyn: Cofio BJ yng nghwmni Andrea Parry, y Bala ac eraill am 7.30yh |
| **24 Tachwedd** | Cwrdd Gweddi Misol am 7.30yh |
| **25 Tachwedd** | Cinio Cymunedol Neuadd yr Eglwys |
| **27 Ionawr2010** | Cynhelir Noson yn Horeb i godi arian at yr eglwysi yn Lesotho |

## LLOFFION

**Llongyfarchiadau gwresocaf i :**

- Nia a Pete ar enedigaeth eu mab Ellis Wyn, ŵyr i Richard a Gwenan

**Cydymdeimlwn yn ddwys â**

- Mairwen a'r teulu ar golli ei brawd, Hefin Stephens
- Lyn (Cefnllwyd) a'r teulu ar golli tad Lyn, John Edwards
- Mona, ar golli ei pherthynas, Mrs Gwladys Edwards

**Gair y Dydd**

Os oes unrhyw un am archebu "Gair y Dydd" am 2010 - £6 am bedwar rhifyn – cysylltwch â Ceris

**Cyfarfod Diolchgarwch** : Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i'r cyfarfod. Cyfanswm y casgliad tuag at Cymorth Cristnogol oedd £100.